# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Mai 2019

Amser: 08.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 12

(8.30-9.15) (Tudalennau 1 - 61)

Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg

John Pugsley, Pennaeth Tîm Cangen Cefnogi Pynciau 7-19, Llywodraeth Cymru

**CLA(5)-14-19** - Briff Ymchwil

**CLA(5)-14-19** - Nodyn ar ymweliad ag ysgol

**CLA(5)-14-19** - Nodyn ar waith ymgysylltu y tîm Cyfathrebu

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - offerynnau a drafodwyd yn flaenorol

(9.15)

### 3.1 SL(5)382 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

(Tudalennau 62 - 66)

**CLA(5)-14-19 - Papur 1** - Adroddiad

**CLA(5)-14-19 - Papur 2** - Ymateb diweddaraf gan y Llywodraeth

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## 4 Papurau i'w nodi

(9.20)

**4.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Rheoliadau Gorfodi'r Gyfraith a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

(Tudalennau 67 - 68)

**CLA(5)-14-19 – Papur 3** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 2 Mai 2019

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem a ganlyn

(9.25)

## 6 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(9.25)

## 7 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 13

(9.30-11.00)

Elin Jones AC, y Llywydd a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

Anna Daniel, Comisiwn y Cynulliad

Matthew Richards, Comisiwn y Cynulliad

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 9 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(11.00)

**Dyddiad y cyfarfod nesaf - 13 Mai 2019**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8.1

# SL(5)382 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i bedwar offeryn statudol sy'n gysylltiedig â chynllunio gwlad a thref:

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 (O.S.1992/666) ("Rheoliadau 1992");
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/2839);
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/801);
- Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1597).

Mae rheoliad 6 yn cynnwys darpariaeth drosiannol mewn perthynas â Rheoliadau 1992.

Gwneir y Rheoliadau hyn er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir pedwar pwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 1992 yn cael eu gwneud o ganlyniad i newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau Rheilffordd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffordd) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") i Reoliadau Rheilffordd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffordd) 2005. Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2019 yn offeryn cadarnhaol, a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 28 Ionawr 2019, ond sydd heb ei wneud eto. Felly, mae'r gwelliannau yn dibynnu ar y drafft fel y'i gosodwyd ar y dyddiad hwnnw. Nid yw'n glir beth fydd yn digwydd os na chaiff Rheoliadau 2019 eu gwneud fel y'u gosodwyd erbyn y diwrnod ymadael. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn esbonio beth fydd yn digwydd os na chaiff Rheoliadau 2019 eu gwneud yn ôl y disgwyl.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015, ac mewn mannau mae'n gwneud cyfeiriadau amhenodol at gyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu rhai o Gyfarwyddebau'r UE, ond nid yw'n pennu'r ddeddfwriaeth berthnasol yn benodol. Mae rheoliad 5(5) yn mewnosod yn y diffiniad o "cynllun neu raglen berthnasol" y geiriad "unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu". Mae hyn yn cyfeirio at weithredu Erthygl 13 o

Gyfarwyddeb 2012/18/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar reoli peryglon damweiniau mawr sy'n ymwneud â sylweddau peryglus. Mae geiriad tebyg ynghylch "unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu'r Gyfarwyddeb AEA" wedi'i gynnwys yn Rheoliad 6. Mewnosodir y diffiniad o Gyfarwyddeb AEA gan reoliad 5(b) o'r Rheoliadau hyn (ac mae'n cyfeirio at Gyfarwyddeb 2011/92 EU Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar 13 Rhagfyr 2011 ar yr asesiad o effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd fel y cafodd effaith yn union cyn y diwrnod ymadael). Byddai'n ddefnyddiol pe bai cyfeiriadau at "unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir..." yn fwy penodol, er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall pa ddarpariaethau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gymwys, hyd yn oed os bydd angen ymadrodd cyffredinol, gan gynnwys, er enghraifft, "ac unrhyw ddarpariaeth arall yng nghyfraith yr UE a ddargedwir...".

**3. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Dylai pennawd pwnc y Rheoliadau gynnwys "CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU" yn ychwanegol at "YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU", i nodi'r maes cyfraith y mae'r offeryn yn ymwneud ag ef.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg.**

Nid yw'r testun Saesneg yn rheoliadau 5(2)(a) a (b) a 6(3) yn cynnwys termau Cymraeg cyfatebol ar gyfer y diffiniadau perthnasol. Mae'r testun Cymraeg yn cynnwys termau Saesneg cyfatebol yn y lle priodol.

## Rhinweddau: craffu

Nodir dau bwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Yn y fersiwn argraffedig a osodwyd o'r Rheoliadau, dywedwyd yn anghywir mai Hannah Blythyn a wnaeth y Rheoliadau, ac fe'i disgrifir fel y "Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru." Mae hyn yn anghywir, gan mai Hannah Blythyn yw'r Dirprwy Weinidog. Deallwn fod y Rheoliadau wedi'u gwneud a'u llofnodi'n gywir gan y Gweinidog, Julie James. Fodd bynnag, mae gwall gweinyddol wedi arwain at gynnwys yr enw anghywir ar y copi argraffedig, cofrestredig, a osodwyd gerbron y Cynulliad.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai gweithdrefn y penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Pwyllgor wedi codi 4 pwynt technegol a 2 bwynt rhinweddau ynghylch y Rheoliadau hyn. Ymdrinnir â phob un o'r pwyntiau technegol yn ogystal â'r pwynt rhinweddau cyntaf.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 ("Rheoliadau 1992") o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan Reoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau'r DU") i Reoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) 2005. Nid yw Rheoliadau'r DU wedi eu gwneud eto. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu â swyddogion yn yr Adran Drafnidiaeth sy'n gyfrifol am Reoliadau'r DU ynghylch eu hynt drwy ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig. Pe na bai Rheoliadau'r DU yn cael eu pasio gan y naill Dŷ neu'r llall, oherwydd natur dibyniaeth y Rheoliadau hyn ar Reoliadau'r DU, byddai angen i Weinidogion Cymru ddrafftio offeryn statudol pellach i ddirymu'r rhan o'r Rheoliadau hyn sy'n diwygio Rheoliadau 1992. Gellid gwneud hyn ar ôl y Diwrnod Ymadael gan na fyddai goblygiadau cyfreithiol pe bai'r diwygiadau hynny mewn grym ar y Diwrnod Ymadael.

O ran yr ail bwynt adrodd technegol, rydym yn derbyn y gellid ystyried bod y geiriad newydd yn annelwig ac nad yw o gymorth i'r darllenydd. Yn ystod y broses ddrafftio, gan fod cyfres sylweddol o offerynnau eraill yn ymwneud ag Ymadael â'r UE yn cael eu drafftio a'u datblygu ym maes Asesiadau Effaith Amgylcheddol, penderfynwyd mabwysiadu dull drafftio yn y Rheoliadau hyn a fyddai'n sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei chwmpasu. Penderfynwyd y byddai'n well gwneud hynny yn hytrach na chyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol, neu restru deddfwriaeth berthnasol, a fyddai'n golygu y gallai fod perygl i rywbeth gael ei hepgor neu, fel arall, y gellid cwmpasu rhywbeth amherthnasol. Yn unol â Chanllawiau'r Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar Gyfraith yr UE a Ddargedwir, mae Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r diffyg hwn wedi ei unioni'n llwyr a'i fod yn dal i fodoli ar ôl y Diwrnod Ymadael. O'r herwydd, bwriedir gwneud cywiriadau pellach i Reoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015 yn rhinwedd y pwerau o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Byddai cywiriadau o'r fath yn rhoi yn lle'r cyfeiriadau at "unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu'r Gyfarwyddeb AEA" gyfeiriadau at ddarpariaethau penodol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir, ac ar yr un pryd yn darparu darpariaeth dal popeth ychwanegol i ganiatáu ar gyfer y risgiau a nodir uchod.

O safbwynt cyfreithiol, ystyrir bod yr holl ddiffygion a nodir ac a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn bellach wedi eu cywiro. Felly, ni fydd y pwerau o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i gywiro diffygion ar gael i wneud diwygiadau pellach yn y modd y mae'r Pwyllgor wedi ei awgrymu ar ôl y Diwrnod Ymadael.

O ran pwyntiau adrodd technegol 3 a 4, caiff y rhain eu cywiro drwy slip cywiro.

Mae'r Pwyllgor yn codi pwynt rhinweddau ynghylch y llofnod ar y Rheoliadau. Rydym yn cadarnhau mai Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a lofnododd yr O.S. ac rydym wedi rhoi copi wedi ei sganio o'r O.S. hwnnw wedi ei lofnodi i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor Materion Deddfwriaethol a Chyfansoddiadol er mwyn cadarnhau hyn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru bellach wedi cysylltu â Chofrestrydd yr Offerynnau Statudol i drefnu slip cywiro ar gyfer y gwall hwn a chaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Rheoliadau.

Rydym yn nodi’r ail bwynt rhinweddau ac yn diolch i’r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn yn rhan o’r broses sifftio.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

**Ymateb wedi'i ddiweddaru gan y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

Cyflwynwyd ymateb gennym i'r Pwyllgor yn ddiweddar ynglŷn â'r Rheoliadau uchod. Ymateb wedi'i ddiweddaru yw hwn.

Yn ein hymateb gwreiddiol i'r Pwyllgor, ymdriniwyd â'r ail bwynt technegol yn adroddiad y Pwyllgor. Gwnaed y pwynt o dan Reol Sefydlog 21.2(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â ffurf y geiriau. Roedd y Pwyllgor yn bryderus bod ymadroddion fel "mewn unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu…" yn aneglur, a heb fod o gymorth i'r darllenydd. Roeddem yn derbyn y pwynt hwn ac ymrwymwyd i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Rheoliadau drwy OS diwygio pellach.

Ar ôl ystyried y diwygiadau sydd i'w gwneud, fodd bynnag, ac ar ôl derbyn cyngor gan y Cofrestrydd OS yn yr Archifau Gwladol, credwn yn awr ei bod yn briodol gwneud y cywiriadau perthnasol drwy ailargraffiad wedi'i gywiro o O.S. 2019/456 (Cy.109). Bydd yr ailargraffiad wedi'i gywiro yn mewnosod troednodiadau yn y mannau priodol yn y Rheoliadau i dynnu sylw penodol at y darpariaethau perthnasol yng nghyfraith yr UE a ddargedwir y cyfeirir atynt. Ychwanegir troednodyn i reoliadau 5(3)(a), 5(4)(a) a 5(7)(a) i gyfeirio'r darllenydd at Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 a oedd yn gweithredu Cyfarwyddeb 2011/92/EU (a ddiffinnir fel "y Gyfarwyddeb AEA" yn y Rheoliadau). Ychwanegir troednodyn pellach i reoliad 5(6) i gyfeirio'r darllenydd at Reoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015 a oedd yn gweithredu Cyfarwyddeb 2012/18/EU (a ddiffinnir fel "y Gyfarwyddeb" yn y Rheoliadau).

Dylid nodi y byddai OS diwygio neu, fel yn yr achos hwn, ailargraffiad wedi'i gywiro, yn cael y canlyniad a ddymunir o well eglurder i helpu'r darllenydd. Caiff yr ailargraffiad o'r OSC ei ddarparu'n rhad ac am ddim i bob un y mae'n hysbys iddo dderbyn y copi a gyhoeddwyd yn wreiddiol.

**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Mai 2019

Annwyl Mick

Ysgrifennaf atoch ynghylch OS Ymadael â'r UE a osodwyd yn Senedd y DU, sef Rheoliadau Gorfodi'r Gyfraith a Diogelwch (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, er mwyn rhoi gwybod i chi pam fod Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad ôl-weithredol i'r OS hwn.

Daeth i'm sylw ar ôl i'r OS gael ei osod bod rheoliad 124 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, sef darpariaeth yr ydym yn ystyried ei bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gan hynny, o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol dylid bod wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer yr OS hwn. Mae fy swyddogion wedi trafod yr OS hwn gyda swyddogion cyfatebol yn y Swyddfa Gartref, ac maent wedi cadarnhau nad oedd Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru gan fod Llywodraeth y DU yn ystyried bod yr OS hwn yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl.

Roedd y ddarpariaeth dan sylw yn gwneud diwygiadau mân iawn i baragraff 12(1)(c) a (d) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn darparu y gellir ond rhoi trwydded ar gyfer sefydliad rhyw (sef lleoliadau adloniant rhywiol, sinemâu rhyw a siopau rhyw) i berson sy'n preswylio mewn gwladwriaeth AEE, neu i gorff corfforaethol a gorfforwyd mewn gwladwriaeth AEE. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn darparu y gellir ond rhoi trwydded i berson sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwladwriaeth AEE, neu i gorff corfforaethol a gorfforwyd yn y DU neu mewn gwladwriaeth AEE. Mae hyn yn barhad o'r polisi presennol, sydd hefyd yn bolisi Llywodraeth Cymru. Mae'r diwygiad yn ffordd synhwyrol o barhau â'r trefniadau trwyddedu presennol ar ôl y diwrnod ymadael.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ysgrifennais at Nick Hurd MP, Minister of State for Police and the Fire Service, i roi cydsyniad ôl-weithredol Gweinidogion Cymru i'r OS hwn.

Mae trwyddedu darparu adloniant yn fater a gedwir yn ôl i Senedd y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, oherwydd nad yw trwyddedu sefydliadau rhyw wedi ei lywodraethu gan Ddeddf Trwyddedu 2003, nid wyf o'r farn y byddai'r ddarpariaeth yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rheoliad 124 o fewn y mater hwn a gedwir yn ôl. O ganlyniad, rwy'n ystyried y dylid bod wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth hon.

Rydym yn cydnabod y gwnaed yr OSau Ymadael â'r UE o dan bwysau nas gwelwyd eu math o'r blaen, nad oedd yn caniatáu'r amser arferol i ystyried yr agweddau mwy goddrychol ar y setliad datganoli. Ar sail hynny, rwy'n fodlon bod Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithredu'n ddidwyll o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol ac wedi cadw at ei dehongliad ei hun o'r setliad datganoli yn yr achos hwn. Rhoddwyd cydsyniad heb ragfarnu ein safbwynt o ran cymhwysedd deddfwriaethol, ac nid wyf yn bwriadu cymryd camau pellach ar hyn o bryd.

Gan fod yr OS hwn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn maes datganoledig, rwyf wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A (RhS30A). Fodd bynnag, gan fod y cywiriad yn un mân iawn, ni fyddaf yn gosod cynnig i drafod y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol. Mae croeso i unrhyw aelod osod cynnig i'w drafod o dan Reol Sefydlog 30A, pe bai unrhyw aelod yn teimlo bod y cywiriad hwn yn deilwng o fod yn destun trafodaeth.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government